**Natur a Ni**

Grug Muse

Ysgrifennwyd y cerddi hyn ar sail cyfweliadau gynhaliwyd yn mis Mawrth ac Ebrill 2022, gyda ffermwyr yn ardaloedd Maldwyn a Meirionnydd a Cheredigion.

Diolch i Meilyr a Siwan Tŷ Gwyn, Aberhosan; Geraint Fedw Arian, Rhyduchaf; Tegid a Meinir Glanmerin; a Ffion Llety Llwyd, Talybont.

**Astudiaethau natur i.**

*Mae natur yn greulon*, ti'n gweld.
Mi'r oedd yr eira wedi claddu popeth, y tryc
y tractor, y defed, y sêr a'r mynydd
ai gyd.

Popeth ond y llwynogod, oedd
yn gwylio ni, yn dilyn ni. Roedden nhw
wedi newid natur, dyna mae
tywydd mawr yn neud. Dy newid di.

*Neso ni dyllu lot allan.* Heblaw
y rhai oedd wedi cloi mewn eira a'u
pennau uwch y rhew.

*O ni'n gweld y llwynogod yn watchad ni.*
Ogla cig ar eu gwynt, a'r eira'n goch a du.

**Astudiaethau Natur ii.**

Ti'n gofyn be di natur? Hola'r bodyn beth yw troed.
*Popeth o'n cwmpas, popeth tu hwnt i'n rheolaeth.*

**Astudiaethau natur iii.**

*Mae'r hinsawdd wastad wedi newid* yn do.
Da ni 'di arfer a'r eithafion. Y traddodiad
ydi *symyd efo'r oes. Dyna natur ffermio.*
A rŵan, wel, os de ni isho'r tir 'ma gynnal
y to nesa, *fydd rhaid i ni feddwl am intensiffeio fwy.*
*Climate change yn ateb i bob dim 'di mynd,*
ond be odd y cwestiwn? Dwi'm yn cofio.

*O ni'n meddwl am natur*
*bobol. Mae'n rhyfedd,*
*o ni mewn angladd*
*hen ddyn, es i a'r mab*
*efo fi, ag odd o'n holi*
*'be di'r pwynt i fi fod yma'.*

Dwi'm yn cofio.

*Parhad y peth.*

**Tymhorau**

*Rhaid i'r cennin drigo cyn i bethau eraill ddechrau ffynnu*
a dwi'n dilyn bysedd cloc y flwyddyn yn y drain
a'r melyn eithin a'r ffordd mae pethau'n marw.
Dwi'n teimlo'r troi yn patrymu dan fy mysedd, dwi'n
*teimlo fe yn fy nghorff i* ac yn y pethau *bychain sy'n symud*
*tu fas.* Yn arogl pethau fel mae'n nhw'n troi o
sur i felys i feddal-gynnes. *Fi'n aros a fi'n aros a fi'n barod.*

A dwi'n gobeithio fod o'n dod, ond weithie, yn ddiweddar
dwi wedi sylwi bys y cloc yn delwi, gludo. *Y tymhore'*
*wedi shiffto. Dwi'm yn gallu deud os ydio'n ymwneud efo*
*newid hinsawdd neu beidio, ond dwi'n amau.*

Achos dyma sut ti'n mynd, ti'n *dilyn y flwyddyn*
*o dymor i dymor, tweakeio yma ac acw*, dilyn a disgwyl
a gwylio a chofio ac aros ac aros ac aros.

***"dim bwys faint mor shit di'r diwrnod di bod***
**mi fyddai'n gwrando ar yr adar"**
*(iselder a hunanladdiad yw'r prif achosion o farwolaeth yn y sector amaeth yn y DU)*

*Ma' pethe'n bildio fyny*
fel swigen i ddechrau,
dan bont yr ysgwydd.
Yn codi, fel cusan fyny
corn y gwddw. Yn sydyn, mae'n
llenwi'r ceudod hwnnw
uwchben y dafod, fel
golau yn llenwi stafell, ac
mae'n ceisio cadw ffin y gweflau yng nghau
ond all o ddim, ac mae'n tasgu allan,
yn nodyn annisgwyl.

*Ma ffermio medru bod reit unig*

A tydi pethau rhywsut, wedyn, byth
run fath. Mae'n cael ei hun
yn llenwi pocedi ei siaced werdd
a phriciau bach. Mwsog, blew y ci.
Mae nhw'n casglu mewn droriau,
yng nghorneli'r cypyrddau.

*mae na lot o ffarmwrs yn teimlo nad oes na wrando arnyn nhw*

Mae'n teimlo ei freichiau'n
ysgafnhau. Fel petai yr esgyrn
wedi blino bod yn esgyrn, fel
petai ei groen yn blino bod yn groen.

Mae'n deffro un bore, plu ei
wallt yn flêr, blaen crafanc ar
sil y ffenest.

*mae'r tsaen yn torri'n diwedd*

Mae'n canu, a does *neb yn gwrando*

**Troelli**

| | |
|---|---|
| *Dwi'n teimlo colled natur yn y fferm lle tyfais i lan.* | lan ar y fferm tyfais i'n golled. dwi'n teimlo natur, |
| *Rhywun arall yn dod fewn, a dad-wneud y da*. | y da yn gwneud dad. yn rhywun o fewn arall. |
| *Gwertho' nhw i bobol oedd yn rhedeg ffesant shoot* | ffenast i bobol yn oedd yn rhedeg, saethu, gwerthu. Nhw |
| *Odd dad yn cael ei talu i wneud pethau amgylcheddol* | oedd y pethau. Amgylchedd yn gwneud dad. Yn talu. |
| *Ond os ma digon o arian yn dod mewn o potie' eraill, does dim angen sybsydis arnyn nhw.* | Eu hangen nhw am arian. Sybsydeiddio'r digon. |

*ag o'n i'n teimlo'n drist bryd 'ny, ma fe allan o balans*